Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru
University of Wales

colegsirgâr

colegceredigion

# Polisi Cyswllt Brys Myfyrwyr

## Tabl Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1
2. Darparu a diweddaru manylion cyswllt brys ........ 1
3. Amgylchiadau pryd gall Grŵp PCYDDS ddefnyddio person cyswllt brys ........ 1
4. Monitro ........ 2
5. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill ........ 2
6. Goblygiadau Adnoddau ........ 3
7. Asesu Effaith ........ 3
8. Rheoli Fersiynau Dogfennau ........ 4

## 1. Cyflwyniad

Mae’r polisi hwn yn amlinellu sut y caiff manylion cyswllt brys myfyrwyr eu casglu a’u diweddaru, o dan ba amgylchiadau y bydd Grŵp PCYDDS yn defnyddio manylion cyswllt brys, sut y gwneir y penderfyniad hwnnw, a phwy a fydd yn cael eu hawdurdodi i gysylltu.

Y pwrpas yw rhoi eglurder i fyfyrwyr, staff a phersonau cyswllt brys, a sicrhau bod camau amserol sy’n seiliedig ar wybodaeth addas yn cael eu cymryd o dan amgylchiadau brys.

Mae’r Cynllun Digwyddiadau Mawr yn rheoli ymagwedd y Grŵp at bob digwyddiad mawr.

## 2. Darparu a diweddaru manylion cyswllt brys

Rhaid i bob myfyriwr ddarparu manylion person cyswllt brys wrth gofrestru ar gyfer ei raglen. Cynhelir yr wybodaeth hon ar system gofnodion myfyrwyr Grŵp PCYDDS, yn unol â Diogelu Data: Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr a deddfwriaeth diogelu data presennol y DU.

Gall myfyrwyr enwebu unrhyw un, dros 18 oed, i fod yn berson cyswllt brys. Mae’r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn dewis rhiant, gwarcheidwad neu bartner. Fodd bynnag, gallai hefyd fod yn unigolyn cyfrifol arall.

Dylai myfyrwyr sicrhau bod y person cyswllt brys yn ymwybodol ei bod wedi’i enwebu ac y bydd ei fanylion cyswllt yn cael eu rhoi i’r Brifysgol. Dylai myfyrwyr hefyd sicrhau bod y person cyswllt brys wedi rhoi ei ganiatâd i fod yn berson cyswllt brys. Lle bynnag y bo’n bosibl, dylai myfyrwyr roi rhif ffôn symudol yn ogystal â llinell dir fel y gallwn gysylltu’n gyflym.

Gofynnir i fyfyrwyr gadw’r manylion hyn yn gyfredol a gallant newid y rhain a manylion personol eraill unrhyw bryd drwy fewngofnodi i MyTSD. Mae’r wybodaeth hon yn orfodol, h.y. ni ellir ei gadael yn wag. Bydd y Brifysgol yn cymryd yn ganiataol bod yr wybodaeth hon yn gyfredol ac efallai y bydd arni angen ei defnyddio heb allu gofyn i’r myfyriwr yn gyntaf. Felly, mae’n bwysig bod myfyrwyr yn ei hadolygu’n rheolaidd.

Derbynnir manylion Cyswllt Brys ar gyfer myfyrwyr dan 18 oed gan riant neu warcheidwad y myfyriwr cyn i’r myfyriwr gofrestru ar ei gwrs, trwy Ffurflen Cydsyniad Ymgeisydd, yn unol â’r Polisi Derbyniadau. Nid oes gan fyfyrwyr o dan 18 oed fynediad i newid neu ddiweddaru eu manylion Cyswllt Brys eu hunain yn MyTSD nes/oni bai eu bod yn cyrraedd 18 oed tra byddant yn fyfyrwyr cofrestredig.

## 3. Amgylchiadau pryd gall Grŵp PCYDDS ddefnyddio person cyswllt brys

Mae pob myfyriwr yn unigolyn a bydd ei amgylchiadau personol ar y pryd yn cael eu hystyried cyn defnyddio’r manylion cyswllt brys a ddarparwyd.

Bydd barn broffesiynol staff Prifysgol priodol yn cael ei defnyddio wrth benderfynu a ddylid hysbysu’r person cyswllt brys ynghylch pryder difrifol am les myfyriwr.

Penderfynir a ddylid rhoi gwybod i’r person cyswllt brys fesul achos a’i awdurdodi gan uwch staff enwebedig yn y Brifysgol, gan ystyried natur a difrifoldeb y pryder am les sydd dan sylw. Efallai y bydd yr uwch aelod staff enwebedig yn ymgynghori â chydweithwyr eraill yn y Brifysgol fel y bo’n briodol.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, fe allwn ddatgelu gwybodaeth bersonol am fyfyriwr heb ei gydsyniad pryd mae gwneud hynny'n 'fuddiant allweddol i'w fywyd'; sef mewn sefyllfaoedd difrifol neu fod bygythiad i fywyd. Fel arfer, byddem yn dweud wrth y myfyriwr ein bod yn bwriadu rhybuddio ei berson cyswllt brys oni bai nad yw hynny'n bosibl neu mewn amgylchiadau pryd y byddai gwneud hynny'n peri oedi annerbyniol.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bryder difrifol am les myfyriwr ac amgylchiadau a allai arwain at gysylltu â'r person cyswllt brys:

- Mae myfyriwr wedi bod i, neu wedi'i dderbyn i'r ysbyty ar frys;
- Mae myfyriwr wedi dioddef anaf corfforol difrifol, gan gynnwys hunan-niwed;
- Mae gan fyfyriwr salwch difrifol parhaus ac mae'n ymddangos ei fod yn dirywio'n sylweddol;
- Mae myfyriwr yn profi argyfwng iechyd meddwl;
- Os yw'r Brifysgol yn credu bod myfyriwr ar goll, e.e.:
    - Mae myfyriwr wedi rhoi'r gorau i gymryd rhan yn ei astudiaethau ac nid ydym wedi gallu cysylltu ag ef/â hi;
    - Nid yw myfyriwr wedi'i weld yn ei neuadd breswyl yn ddiweddar ac nid ydym wedi gallu cysylltu ag ef/hi;
    - Os rhoddir gwybod i'r Brifysgol fod myfyriwr ar goll.

Gall y Brifysgol gysylltu â'r person cyswllt brys pan mae'n amau bod myfyriwr wedi dal Covid-19 ac nid yw wedi gallu cysylltu ag ef/hi (e.e. yn dilyn cais gan Profi, Olrhain, Diogelu).

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau lle na fyddem fel arfer yn cysylltu â'r person cyswllt brys:

- pryderon ynghylch cynnydd academaidd;
- presenoldeb gwael mewn darlithiau.

Yn ogystal â cheisio cysylltu â'r person cyswllt brys, bydd y Brifysgol yn rhoi'r manylion cyswllt i'r gwasanaethau brys, er enghraifft i griw ambiwlans neu drwy ffonio'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn yr ysbyty fel y gallant gefnogi eu claf.

Os bydd amheuaeth bod myfyriwr wedi marw, neu os bydd cadarnhad o hyn, bydd y Brifysgol yn dilyn ei Chynllun Digwyddiadau Mawr. Bydd y Brifysgol yn trosglwyddo manylion y person cyswllt brys i'r gwasanaethau brys i'w cefnogi yn eu rôl o gysylltu â'r perthynas agosaf.

### 4. Monitro

Caiff adroddiad trosolwg o achosion myfyrwyr ei gyflwyno'n flynyddol i'r Senedd ac i bwyllgor perthnasol y Cyngor gan y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiad Academaidd). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn monitro effeithiolrwydd y polisi.

### 5. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

Cynllun Digwyddiadau Mawr

## 6. Goblygiadau Adnoddau

| Goblygiad | Manylion |
|---|---|
| Cyllid | *Ni ragwelir adnoddau ychwanegol.* |
| Staff | *Adnodd i ddiweddaru dogfennaeth gofrestru, wedi'i gynnwys mewn diweddariadau cofrestru blynyddol.* |
| Asedau | *Ni ddynodwyd unrhyw gostau asedau.* |
| Partneriaid | *Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar draws y grŵp sector deuol. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i bartneriaid, a bydd disgwyl iddynt hwythau gael eu polisïau eu hunain.* |
| Cyfradd amser | *Ar ôl derbyn cymeradwyaeth, gweithredir y polisi ar unwaith. Bydd y polisi'n cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.* |
| Arweinyddiaeth | *Pro Is-Ganghellor Cysylltiol Profiad Academaidd* |

## 7. Asesu Effaith

| Goblygiad | Ystyriwyd yr Effaith (Do/Naddo) | Yr Effaith a Nodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | Do | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r canlynol:*<br>• *Cyfraith contractau a defnyddwyr*<br>• *Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>• *Deddf Cydraddoldeb 2010*<br>• *Cyfiawnder Naturiol (tegwch)*<br>• *Deddf Diogelu Data 2018 (a GDPR)* |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | Do | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r gwerthoedd a fynegwyd yn y Cynllun Strategol.* |
| Dadansoddi Risg | Do | *Bydd cydymffurfio â'r polisi yn lliniaru cwynion i'r OIA, a chwynion i'r ICO.* |
| Cydraddoldeb | Do | *Bydd y polisi'n sicrhau y cedwir at ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.* |
| Yr Iaith Gymraeg | Do | *Mae'r polisi'n cyd-fynd â'r egwyddorion a fynegir yn Neddf yr Iaith Gymraeg.* |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | Do | *Dim wedi eu dynodi.* |
| Cyfathrebu/ Cyfryngau/ Marchnata | Do | *Caiff y polisi hwn ei gynnwys yn rhan o'r gweithdrefnau cofrestru.* |

**8. Rheoli Fersiynau Dogfennau**

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Polisi Drafft | KE | 08.10.2019 |
| 0.2 | Bwrdd gweithredol y Grŵp yn gweld y Polisi Drafft | KE | 17.10.2019 |
| 1 | Polisi Terfynol | KE | 04.11.2019 |
| 1.1 | Diweddariad Blynyddol: cynnwys profi, olrhain a diogelu | KE | 28.08.2020 |

**Awdur(on) y Polisi:**

**Dr Kyle Erickson, Cyfarwyddwr Profiad Academaidd**

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwy

**Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol:** AB ac AU*

**Dyddiad cadarnhau:** 04 /11 / 2019**

**Dyddiad y bydd yn effeithiol:** 01 / 01 / 2020**

**Dyddiad adolygu'r polisi**: 01 / 10 / 2020**

**I'w gyhoeddi:** ar wefannau AB ac AU / mewnrwydi AB ac AU